

Dewis y safle cywir ar gyfer ein hysbyty newydd



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board



Ymgynghoriad ar gyfer ieuencid

Helo

Ni yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Rydym yn cynllunio, yn trefnu ac yn darparu gwasanaethau iechyd ar gyfer bron i 400,000 o bobl ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

Mae gennym:

- pedwar prif ysbyty
- pum ysbyty cymunedol
- dwy ganolfan gofal
- cyfleusterau cymunedol fel:



meddygfeydd



deintyddfeydd



fferyllyfeydd



optometryddion
(gofal llygaid)




timau iechyd cymunedol



canolfannau iechyd



Gwasanaethau iechyd meddwl.



Yn 2018 gwnaethom gynnal **Trawsnewid ein Gwasanaeth Iechyd** a gofyn i bobl sut y gallem wella gwasanaethau a beth oedd yn bwysig iddyn nhw.

Fe wnaethom wrando ar yr hyn ddywedodd pawb a gwneud y penderfyniad i adeiladu **Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio** newydd.

Nawr mae'n rhaid inni benderfynu **ble i'w adeiladu**.

Mae gennym dri safle (lle) gwahanol i chi ddewis ohonynt:

- Hendy-gwyn ar Daf: Gerddi'r Ffynnon
- Hendy-gwyn ar Daf: Tŷ Newydd
- Sanclêr

Nid ydym eto wedi:

- dewis hoff safle
- prynu unrhyw dir
- cadarnhau unrhyw gyllid i brynu'r tir neu adeiladu'r ysbyty newydd gan Lywodraeth Cymru

Mae'r ddogfen hon yn dweud mwy am y safleoedd, beth sy'n debyg a gwahanol.

Rydym am wybod pa safle sy'n ddewis da yn eich barn chi.



Pam fod hyn yn bwysig?

Weithiau mae angen gofal brys ar bobl yn ogystal â gofal wedi'i gynllunio. Bydd ysbyty newydd yn ein helpu i ddiwallu anghenion nawr ac yn y dyfodol.



Teulu Jones

Nid yw Teulu Jones yn deulu go iawn, ond maen nhw'n enghraifft o'r cleifion rydyn ni'n gofalu amdany'n nhw. Dyma sut y gallai Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd eu helpu.



Mae **Gareth Jones** yn 38 ac yn byw yn Nhalybont. Ar ei daith feicio ddydd Sadwrn, cafodd ei daro gan gar ger Aberaeron. Roedd angen gofal brys arno.

Mae meddygon o'r Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys yn cyrraedd y lleoliad. Maen nhw'n mynd â Gareth i Ysbyty Glangwili, gan mai dyma'r uned drawma leol dros dro. Ond roedd hynny'n effeithio ar ofal cynlluniedig pobl eraill.



Pe bai gennym Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio, byddent yn mynd ag ef yn syth i'r ysbyty hwnnw.



Mae **Rhys Jones** yn 52 oed ac yn byw yn y Tymbl. Roedd yn arfer chwarae rygbi ond cafodd anaf i'w ben-glin sy'n dal i achosi poen iddo. Mae'n yrrwr lori pellter hir, a oedd dros ei bwysau... roedd yn hoffi pastai porc!

Er mwyn helpu ei ben-glin, penderfynodd golli pwysau a rhoi'r gorau i ysmegu, ond roedd ei anaf yn dal i achosi poen iddo. Felly, penderfynodd y tîm orthopedig y byddai'n elwa o lawdriniaeth ar ei ben-glin.

Roedd angen gofal wedi'i gynllunio ar Rhys. Cafodd ei lawdriniaeth yn Ysbyty Tywysog Philip, ond cafodd ei gohirio sawl gwaith. Yn dilyn llawdriniaeth, roedd yn ei chael yn anodd cyrraedd ffisiotherapi gan ei fod angen rhywun i'w yrru yno.



Pe bai gennym Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio, gallai Rhys gael ei lawdriniaeth yno... gyda llai o siawns y byddai'n cael ei gohirio.

Yn dilyn llawdriniaeth, byddai'n cael ffisiotherapi yn nes at adref ac yn cysylltu â'i feddyg Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio ar-lein, felly ni fyddai'n rhaid iddo deithio.

Ynghylch yr Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio Newydd

Ein Hysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd fydd y prif safle ysbyty ar gyfer gofal brys a gofal wedi'i gynllunio yn ein rhanbarth. Bydd yn darparu gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant, oedolion ac iechyd meddwl.

Ni fydd hyn yn newid yr ysbytai eraill yn ormodol:



Bydd Ysbyty Bronglais yn parhau i ddarparu gwasanaethau gofal brys, gofal mewn argyfwng a gofal wedi'i gynllunio.



Bydd Ysbyty Tywysog Philip yn parhau i ddarparu gofal mân anafiadau a gofal meddygol oedolion.



Bydd ysbytai Glangwili a Llwynhelig yn dod yn ysbytai cymunedol.

Ynghylch y safleoedd




Mae'n bwysig bod pawb yn gallu cyrraedd Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn gyflym.

Pan oeddem yn penderfynu ble y gallai ysbyty newydd fod, gwnaethom edrych ar amseroedd teithio o bob rhan o'r ardal.

Fe wnaethom benderfynu bod yn rhaid i'r ysbyty fod ar safle rhwng, ac yn cynnwys, Arberth a Sanclêr.

Dyna pam y mae gennym y tri safle hyn i ddewis ohonynt.



Beth sydd gan y safleoedd yn gyffredin

Mae'r tri safle yr un fath mewn sawl ffordd:

Maen nhw'n ddigon mawr ac yn addas ar gyfer eu datblygu

Byddent oll o fudd i'r economi leol ac yn helpu twf

Rydym yn amcangyfrif y byddent i gyd yn costio tua'r un faint (tua £736 miliwn)

Maen nhw'n agos at drefi bychain gyda chyfleusterau lleol tebyg fel siopau, ysgolion, tai ac ati

Maen nhw'n agos at lwybrau bysiau sy'n cysylltu â Hwlfordd a Chaerfyrddin

Maen nhw o fewn y parth gwreiddiol (rhwng, ac yn cynnwys, Arberth a Sanclêr)

Byddai angen mwy o wasanaethau bws ar bob un ohonynt, yn rhedeg yn amlach sy'n cysylltu â chymunedau llai ar gyfer staff, cleifion ac ymwelwyr

Nid oes gan yr un ohonynt unrhyw faterion cynllunio arwyddocaol

Mae gan y tri safle fynediad at nwy, trydan a dŵr

Byddai angen gwelliannau i ffyrdd lleol a rheoli traffig ar bob un ohonynt



Y gwahaniaethau rhwng y safleoedd

Materion i'w hystyried:	Hendy-gwyn ar Daf: Gerddi'r Ffynnon	Hendy-gwyn ar Daf: Tŷ Newydd	Sanclêr
 Canllawiau	Mae rhywfaint o risg efallai na chaiff canllawiau cenedlaethol ar isafswm nifer y cleifion sy'n cael eu trin eu bodloni. Gallai hyn effeithio ar ansawdd a diogelwch, a staff.		Y risg leiaf i ganllawiau ar isafswm nifer y cleifion sy'n cael eu trin.
 Amser teithio i Adran Damweiniau ac Achosion Brys (ar gyfartaledd o gymharu â nawr)	9 munud yn hirach Byddai gan 7% o'r boblogaeth fynediad 999 cyflymach i Adran Achosion Brys	9 munud yn hirach Byddai gan 7% o'r boblogaeth fynediad 999 cyflymach i Adran Achosion Brys	6 munud yn hirach Byddai gan 6% o'r boblogaeth fynediad 999 cyflymach i Adran Achosion Brys
 Teithio mewn car: yn lle i Glangwili (ardaloedd gyda 1,000+ o drigolion)	13 munud yn hirach (ar gyfartaledd)	13 munud yn hirach (ar gyfartaledd)	7 munud yn hirach (ar gyfartaledd)
 Teithio mewn car: yn lle i Llwynhelyg (ardaloedd gyda 1,000+ o drigolion)	12 munud yn hirach (ar gyfartaledd)	12 munud yn hirach (ar gyfartaledd)	14 munud yn hirach (ar gyfartaledd)
 Mynediad oddi ar y ffordd	Mynediad uniongyrchol o'r A40	Dim mynediad uniongyrchol, nes y bydd gwelliannau i ffyrdd lleol neu gyswllt newydd i'r A40	Yn uniongyrchol o'r A40 a'r A477
 Pellter o orsaf drenau	750m	250m	1000m (ar ôl ail-agor yr orsaf)
 Perchnogaeth tir	Tirfeddianwyr preifat lluosog	Perchnogaeth gyhoeddus	Un tirfeddiannwr preifat
 Perygl llifogydd	Isel	Oes, ar rannau, ond ni fydd adeiladu arnynt	Na
 Lle i ehangu yn y dyfodol	Cyfyngedig	Rhywfaint	Cyfyngedig
 Cwmpas ar gyfer ynni adnewyddadwy	Potensial oddi ar y safle	Potensial ar y safle	Potensial oddi ar y safle
 Costau ychwanegol posibl	£19.9m	£28.2m	£20.7m

Y camau nesaf



Er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cyrraedd a defnyddio'r ysbyty newydd, byddwn yn datblygu Strategaeth Trafnidiaeth a Hygyrchedd. Bydd hwn yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer trafndiaeth i'r ysbyty a'n gwasanaethau cymunedol.



Byddwn hefyd yn parhau i gynnwys cymunedau fel y gallwn greu ysbyty newydd a all ddiwallu anghenion pobl nawr ac yn y dyfodol.

Beth yw eich barn chi?

Atebwch y cwestiynau.

Anfonwch eich atebion erbyn 19 Mai 2023 i:

✉ Opinion Research Services, FREEPOST SS1018, PO Box 530, Abertawe, SA1 1ZL
(nid oes angen stamp)

neu

✉ hyweldda.engagement@wales.nhs.uk

Neu gallwch ddarllen yr ymgynghoriad llawn a llenwi holiadur yn:

📄 biphdd.gig.cymru/safle-ysbyty-newydd



0300 303 8322 (gadewch neges a byddwn yn eich ffonio yn ôl fel nad oes rhaid i chi dalu am yr alwad)

Gweld diweddariadau ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol:



facebook.com/bwrddiechydhweldda



twitter.com/BIHywelDda



instagram.com/hywelddauhb



youtube.com/HywelDdaHB

